

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWDYD YN SIAMBR
Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31
4WB DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022, AM 10:00**

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

E L P Caparros	P Davies	P Ford	D M Hughes
M Lewis	J Llewellyn-Hopkins	RL Penhale-Thomas	A Wathan
AJ Williams	R Williams		

Swyddogion:

Lucy Beard	Swyddog Craffu
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Jessica Mclellan	Swyddog Craffu
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Delyth Webb	Rheolwr Grwp Adfywio Strategol

7. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Richard Williams fuddiant personol yn eitem 5 ar yr agenda fel aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

8. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 2 a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

**9. AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD
GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL PLANT 23 - 27 MAI 2022**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yr adroddiad a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Pwyllgor Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant a gofyn i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a gwneud sylwadau ar y Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y Cynllun Gweithredu manwl ac eglurodd ei fod wedi'i osod yn 4 adran yn unol ag adroddiad AGC. Tynnodd sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â phob maes i'w wella yn y cynllun. Cadarnhaodd, er bod rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau, bod nifer ohonynt yn mynd rhagddynt ond bod llawer o feysydd a nodwyd i'w gwella eisoes wedi'u nodi gan y gwasanaeth eu hunain cyn yr arolygiad a gwaith wedi dechrau arnynt yn barod.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar (Dirprwy Arweinydd) ei bod hi'n gwybod, pan gafodd ei phenodi'n Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd y llynedd, y byddai'n her a'i bod wedi bod yn ddigalon ar adegau. ynghylch rhai o'r heriau a wyneb. Fodd bynnag, roedd hi bellach yn fwy calonogol a gallai weld mwy o gyfleoedd a'i bod yn treulio

cymaint o'i hamser â phosibl gyda defnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd am sgysiau diweddar Gofalwyr Maeth a oedd wedi bod wrth eu bodd yn rhoi gwybod iddi am y newidiadau y gallent eu gweld yn cael eu gwneud o fewn y practis.

Pwysleisiodd y byddai cwblhau'r hyfforddiant 'Arwyddion Diogelwch' yn rhoi gwell trosolwg i reolwyr. Yn ogystal, cododd yr heriau a wynebir gan yr agenda nid-er-elw o ran digonolrwydd y ddarpariaeth o leoliadau i bobl ifanc. Yn olaf, tynnodd sylw at y pwysau ar y cyllidebau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a'r angen i edrych am ddyfodol mwy cynaliadwy ac arweiniad a chyfeiriad gan Lywodraeth Cymru. Rhybuddiodd pe byddai sefyllfa'r gyllideb yn aros yr un fath, yna ni fyddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn aros yr un fath a bod angen cael sgwrs gyda chymunedau lle byddai'r effaith yn cael ei deimlo.

Diolchodd Aelod i'r Swyddogion a'r Dirprwy Arweinydd am eu gonestrwydd a thryloywder a gofynnodd a oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn fodlon bod yr adroddiad arolygu yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r ddarpariaeth gwasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei bod hi a thynnodd sylw at y ffaith ei fod yn adlewyrchu'r hunanwerthusiad yr oeddent wedi'i gyflwyno i AGC a'i bod yn gobeithio ei fod hefyd yn adlewyrchu'r cyngor yr oedd wedi'i roi i'r Cyngor llawn pan gyflwynodd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfeiriodd Aelod at y ganran uchel o ymatebwyr i'r arolwg pobl a oedd yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch 'yn anaml' neu 'byth', a oedd yn teimlo eu bod yn cael eu clywed 'yn anaml' neu 'byth', pan ofynnwyd iddynt pa mor hawdd oedd cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, a ddywedodd, 'ddim yn hawdd' neu 'anodd iawn' a, phan ofynnwyd iddynt pa mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a gynigiwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol, a ymatebodd naill ai 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl' neu 'ddim yn ddefnyddiol'. Nododd y cyferbyniad â'r arolwg staff lle dywedodd 93% o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu cefnogi i wneud eu gwaith a dywedodd 71% bod eu llwyth gwaith yn hylaw. Gofynnodd ai'r ffigurau oedd y safonau arferol a holodd pam roedd yr arolwg pobl yn adrodd un peth a'r arolwg staff yn adrodd peth arall.

Cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod yr ymateb i'r arolwg pobl yn faes yr hoffent ei weld yn cael ei wella. Cadarnhaodd, er bod y gwasanaeth yn cael amser heriol iawn, roedd yn ymddangos bod yr ymatebion i'r arolwg staff yn adlewyrchu lefel y gefnogaeth, yr adnoddau a'r cymorth lles sy'n cael eu rhoi i mewn yn gorfforaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pryd y byddai rheoli perfformiad yn cyd-fynd â'r dangosyddion perfformiad, amlygodd fod hyn wedi'i gydnabod yn yr hunanwerthusiad ac er ei fod yn faes i'w ddatblygu o hyd, dywedodd ei fod mewn sefyllfa llawer gwell ers Mai gyda gwybodaeth ar gael o ddydd i ddydd i'r tîm rheoli.

Mewn ymateb i gwestiwn a oedd yr her o niferoedd cyson uchel o atgyfeiriadau, mwy o gymhlethdod o ran angen a heriau gweithlu yn nodweddiadol o bob awdurdod lleol yng Nghymru neu'n arbennig i Ben-y-bont ar Ogwr, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod Pen-y-bont ar Ogwr yn y chwarter uchaf o ran nifer y plant sydd wedi bod mewn gofal a'r nifer ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Bu cynnydd sylweddol, hyd yn oed ers y cyfnod adolygu, yn y plant sy'n agored i'r awdurdod ar sail gofal a chymorth, yn nifer y cysylltiadau drwy'r drws ffrynt a nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn y gwasanaethau statudol plant.

Tynnodd sylw at yr angen i newid y cydbwysedd gofal a bod AGC wedi sylwi bod yr awdurdod yn colli cyfleoedd i atal anghenion rhag gwaethygu a bod angen gwneud

gwaith ar draws y system i edrych ar ble mae adnoddau'n cael eu buddsoddi. Tra'n cydnabod yr angen am adnoddau pan oedd angen ymyrraeth statudol, tynnodd sylw at yr angen i gael gwasanaethau atal wedi'u targedu, lle bo plant a theuluoedd yn cael eu cymhell i newid, a allai ddarparu canlyniadau gwell na gwasanaethau statudol. Mae'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) wedi gwneud darn o waith yn edrych ar Gymorth Cynnar, Trothwy Gofal, diogelu a sut i reoli anghenion plant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi'i ysgogi gan ddata a thystiolaeth. Fodd bynnag, y cyngor gan yr IPC oedd bod y galw ar y swm presennol yn debygol o barhau dros gyfnod o 2 flynedd o leiaf ac roeddent wedi darparu meini prawf clir o ran yr hyn sydd angen ei ystyried i ostwng y lefel. Felly, er bod rhai awdurdodau ledled Cymru yn arddangos nodweddion tebyg, roedd rhai wedi llwyddo i symud cydbwysedd gofal.

Mewn perthynas â chwestiwn ynghylch a oedd y cyfleoedd a gollwyd i archwilio a lliniaru risg yn drylwyr a diffyg chwilfrydedd proffesiynol yn deillio o faterion yn ymwneud â chapasiti, eglurodd y Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod AGC wedi bod yn cyfeirio at y set sgiliau a welsant wedi'i adlewyrchu yn y ffeiliau o ran ymarfer. Cyfeiriodd at y Cynllun Gweithredu a'r gyfres o opsiynau hyfforddi a oedd wedi'u casglu; roedd llawer ohonynt yn orfodol (ar gyfer staff parhaol a staff asiantaeth). Tynnodd sylw at y ffaith bod chwilfrydedd proffesiynol yn sgil go iawn, i fynd o dan yr hyn a gyflwynir ar y wyneb ac yn un yr oedd angen i bob gweithiwr cymdeithasol ei feddu.

Yn ddiweddarach, mynegodd Aelod bryder y gallai plant ddiflannu oddi ar y radar yn anfwriadol oherwydd diffyg chwilfrydedd proffesiynol neu dderbyn yr hyn a welir ar y wyneb, a holodd a oedd mecanwaith mewnol i staff iau fynd â phryderon yn ôl i uwch reolwyr i sicrhau bod modd edrych yn fanylach ar unrhyw risgiau nad ydynt yn cael eu harchwilio.

Cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant ei bod yn bwysig cael goruchwyliaeth gan reolwyr cymorth, goruchwyliaeth a goruchwyliaeth anffurfiol. Roedd yn cydnabod bod y cyfle i gael sgysiau ar draws y ddesg wedi'u colli yn ystod y pandemig ond bod yr holl dimau diogelu bellach yn ôl mewn swyddfeydd â digon o staff a bod hyfforddiant goruchwyllo yn hanfodol i sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau i ddarparu'r arweiniad hwnnw. Er y bu heriau sylweddol o ran swyddi gweigion ar lefelau rheoli, roeddent wedi gallu penodi uwch reolwyr o awdurdodau lleol eraill lle'r oedd taliad atodol ar sail y farchnad wedi cynorthwyo.

Mewn ymateb i gais am eglurder ar ystyr trothwyon a safonau anghyson, dywedodd ei fod yn cyfeirio at lefel yr ymyrraeth a ddarperir ar sail risg. Roedd y cynnydd sylweddol iawn mewn cysylltiadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) a dderbyniwyd wedi'u hadlewyrchu mewn nifer o ffeiliau yr edrychodd AGC arnynt a nodwyd y gwelliant sylweddol o'r anghysondeb o ran trothwyon a phenderfyniadau ers y digwyddiad critigol ym mis Chwefror a mis Mawrth. Roedd nifer y rheolwyr a roddwyd i'r gwasanaeth hwnnw wedi'i dreblu gyda chapasiti ychwanegol gan uwch weithwyr cymdeithasol sy'n gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau o ran risg ac yn sicrhau trothwyon cyson.

Nododd Aelod yr oedi cyn ysgrifennu adroddiadau a gofynnodd a oedd galwadau i'r IAA yn cael eu recordio fel bod y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn galwad ar gael ar unwaith, pe bai angen.

Cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant nad oedd galwadau'n cael eu recordio ond tynnodd sylw at y ffaith, os oedd gan unrhyw weithiwr proffesiynol bryder diogelu, y dylent ffonio i mewn a'i bod yn bwysig bod hynny'n cael ei gofnodi ar y ddogfen gywir. Cadarnhaodd fod gan Addysg eu gweithdrefnau a'u polisiâu diogelu eu hunain ac er bod athrawon yn gallu cysylltu â'r IAA am gyngor, os yw gweithiwr proffesiynol yn galw am gyngor ac eisiau cofnodi'r wybodaeth, mae angen iddynt ddatgan hynny, fel bod cyfrifoldeb deuil.

Er mwyn egluro ymholiad Aelod ynghylch a fyddai'n gyfrifoldeb ar y sawl sy'n adrodd i gyflwyno ffurflen ar ôl yr alwad os oedd am i'w wybodaeth gael ei chofnodi, dywedodd y byddai hynny'n dibynnu ar natur y drafodaeth ond os oedd hynny i wneud atgyfeiriad diogelu yr oedd gweithiwr proffesiynol am ei gyflwyno, dylid mynd ar drywydd hynny yn ysgrifenedig, ond bod gweithwyr proffesiynol yn yr IAA wedi cofnodi ar y system sgyrsiau gyda gweithwyr proffesiynol eraill.

Mynegodd yr Aelod bryder y gallai fod nifer o fân bryderon yn cael eu hadrodd gan wahanol unigolion gan arwain at bryder diogelu na fyddai IAA o reidrwydd yn ei godi. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i gynhyrchu nodyn briffio yn nodi'r broses ar gyfer galwadau a wneir i'r Gwasanaeth IAA, i gynnwys manylion ynghylch sut neu os yw'r rhain yn cael eu cofnodi a chyfrifoldeb ysgolion wrth wneud atgyfeiriadau diogelu.

Nododd yr Aelod ganran yr ymatebion i'r arolwg pobl nad oedd yn gweld y cyngor a roddwyd yn ddefnyddiol a thynnodd sylw at y ffaith, pe bai galwadau'n cael eu recordio, y gallai Rheolwyr wrando ar y cyngor ac os nad oedd o gymorth, y gallai godi mater hyfforddi. Dywedodd fod Penaethiaid yn derbyn cyngor anghyson lle mae rhai yn cael eu hysbysu nad oedd angen iddynt lenwi ffurflen, tra bod rhai yn gyfystyr ag atgyfeiriad diogelu, felly roedd yn hanfodol bod pob galwad yn cael ei chofnodi er mwyn amddiffyn plant.

Cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod prosesau mewnol o fewn ysgolion lle maent yn adrodd am eu problemau a'u pryderon, er eu bod yn bryderon lefel isel. Os oedd y rheini'n bryder diogelu a bod atgyfeiriad diogelu'n cael ei wneud, roedd hynny'n cael ei gofnodi. Fodd bynnag, cynigiodd ymchwilio i achosion unigol all-lein gyda'r Aelod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant eu bod yn ceisio sicrhau rhyngwyneb cryfach gydag ysgolion ac y byddai'r Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant yn cyfarfod â Ffederasiwn Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Roeddent hefyd yn bwriadu ailddechrau cyfarfodydd rheolaidd ar sail clwstwr ysgolion i archwilio enghreifftiau a deall a oeddent yn faterion untro neu'n arwydd o rywbeth mwy systemig. Cadarnhaodd hefyd fod gan Addysg y seilwaith diogelu y gellid ei ddefnyddio i godi pryderon.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod yr IPC wedi amlygu bod gan Ben-y-bont ar Ogwr ddau ddrws ffrynt ar gyfer diogelu nad oedd yn arfer da a'i fod yn rhywbeth yr oedd y gwasanaeth yn bwriadu mynd i'r afael ag ef fel rhan o'u Cynllun Gweithredu.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â hwyluso cyswllt dan oruchwyliaeth, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai trefniadau cyswllt a gyfeiriwyd gan y llysoedd teulu ar gyfer plant â phrofiad o ofal gyda'u rhieni a'u teulu estynedig oedd y rhain, yn cael eu goruchwyllo gan weithwyr cyswllt mewn lleoliad addas ac y dylent fod yn nrofiad cadarnhaol i'r plentyn. Cadarnhaodd eu bod yn gweld mwy a mwy o gyswllt yn cael ei gyfeirio gan y llysoedd a bod adolygiad cychwynnol yn cael ei gynnal i ystyried mesurau tymor byr i sicrhau capasiti i hwyluso cyswllt o'r ansawdd gorau cyn adolygiad dyfnach yn y Flwyddyn Newydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei wneud i sicrhau adroddiadau cyson o ansawdd uchel, cyfeiriodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant at hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i staff ar ysgrifennu adroddiadau a'r polisi cofnodi i gefnogi cofnodion cyson o ansawdd da yn ogystal â hyfforddiant goruchwyliaeth i reolwyr.

Gofynnodd Aelod beth oedd wedi'i gynnwys yn y Cynlluniau Gweithredu a oedd wedi'u datblygu a'u gweithredu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn dilyn y digwyddiad critigol, fod adolygiadau asiantaeth sengl mewn modd amserol a oedd yn cael ei gydnabod gan AGC a chynlluniau gweithredu a ddilynwyd wedi'u hintegreiddio i'r cynllun gweithredu gwerthuso perfformiad a'r cynllun strategol 3 blynedd, yn ogystal â cynllun gweithredu cyfunol o ganfyddiadau'r archwiliad ynghylch gwella arferion a pholisïau, sicrhau systemau sicrhau ansawdd effeithiol a goruchwyliaeth dda gan reolwyr.

Gofynnodd Aelod beth oedd y llwyth achosion cyfartalog fesul gweithiwr cymdeithasol, y nifer uchaf o achosion gyda gweithiwr cymdeithasol ac a oedd, ar lefel asesu, llwythi achosion ar lefel critigol, lle'r oedd nodi neu liniaru risg yn cael ei ystyried yn fater difrifol.

Yn yr IAA, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant fod lefelau achosion yn 16 a'r isaf yr oedd wedi'i weld erioed ac o fewn y gwasanaeth a reolir, byddai tua 18 neu 19. Yn y timau Ardal, roedd y llwyth achosion uchaf tua 26 ond byddai rhai amgylchiadau penodol mewn perthynas â hyn fel grŵp mawr o frodyr a chwiorydd. O fewn tîm Ardal y Gorllewin roedd llwythi achosion cyfartalog tua 20, yn y Gogledd tua 23 ac yn y Dwyrain tua 24 neu 25. Cytunodd i ddarparu'r nifer llwyth achosion uchaf fesul ardal i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod llwythi achosion yn yr IAA ar y lefel iawn oherwydd yr adnoddau ychwanegol sylweddol yn y rhan honno o'r gwasanaeth. Roedd y llwyth achosion mewn ardaloedd diogelu yn uwch na'r delfrydol a fyddai tua 15. Er bod gwaith yn mynd rhagddo i weld a ellid cau achosion yn ddiogel rhag gofal a chymorth, roedd y gwasanaeth hefyd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod pob achos yn cael ei ddyrannu bob amser, hyd yn oed os oedd hyn yn golygu bod uwch weithwyr cymdeithasol neu reolwyr tîm yn dal nifer fach o achosion am gyfnod byr. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod maint y gwaith yn ei gwneud yn anodd cadw llwythi achosion ar lefel hylaw ac felly lefel y pwysau ar y gyllideb a gweithwyr asiantaeth.

Mewn perthynas â phwysau cyllidebol, dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gan yr IAA lefel briodol o lwyth achosion oherwydd yr adnoddau ychwanegol a'r staff asiantaeth a neilltuwyd i'r gwasanaeth ar gost sylweddol i'r Awdurdod.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch lefel y llwythi achosion i alluogi gweithwyr cymdeithasol i ymdopi â phwysau'r gwaith ac i nodi a lliniaru risg, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant y byddai'r safon aur tua 15 i 18 achos ac efallai ychydig yn uwch yn IAA, lle'r oedd trosiant uwch o achosion.

Mewn ymateb i gwestiwn ar hyfforddiant 'Hanfodion', dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant fod yr hyfforddiant wedi dechrau cael ei ddarparu cyn yr arolygiad, ei fod yn orfodol i bawb a'i fod wedi'i gyflwyno a'i ddarparu, ond y byddai'n parhau i fod yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu i bob aelod newydd o staff.

O ran a oedd cynlluniau hyfforddi unigol ar gyfer pob aelod unigol o staff neu gynlluniau hyfforddi generig ar gyfer rolau, cadarnhaodd fod hyfforddiant pob gweithiwr cymdeithasol yn rhan allweddol o'u goruchwyliaeth fisol a bod eu cynlluniau hyfforddi unigol yn cael eu hystyried bob blwyddyn yn eu harfarniad blynyddol. Yn ogystal, roedd cynlluniau hyfforddi tîm a gwasanaeth a oedd yn esblygu ac roedd adolygiad parhaus o'r angen am hyfforddiant. Cydnabu'r ymdrech a wynebir gan ymarferwyr wrth flaenoriaethu hyfforddiant yn erbyn galw achosion brys a thynnodd sylw at yr angen am gydbwysu pwysau cystadleuol.

Dyweddod y Dirprwy Arweinydd fod angen i weithwyr cymdeithasol gwblhau nifer orfodol o oriau o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus er mwyn parhau i fod yn gofrestrdig, a bod ymarferwyr hefyd wedi cael gwybod i flaenoriaethu rhywfaint o hyfforddiant gorfodol, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno'r model ymarfer newydd.

Nododd AGC y bu 'effaith andwyol sylweddol ar ddarpariaeth rhai gwasanaethau plant' a holodd Aelod a oedd gwasanaethau eraill yn ogystal ag IAA a allai fod yn destun pryder.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei fod yn ymwneud yn bennaf â'r digwyddiad critigol yn yr IAA ond tynnodd sylw at y ffaith na fyddai achosion yn mynd i'r IAA ar eu pen eu hunain ac y gallent drosglwyddo i rannau eraill o'r gwasanaeth, er iddi nodi eu bod yn ceisio gweithredu fel un gwasanaeth. Amlygodd hefyd enghraifft o rai o'r amgylchiadau ynghylch galw digwyddiad critigol yn IAA.

Mewn perthynas â chwestiwn ar gofnodion goruchwyllo, cadarnhaodd ei fod yn faes sy'n cael ei archwilio'n rheolaidd a bod polisi goruchwyllo yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda goruchwylwyr a'r sawl sy'n cael eu goruchwyllo. Cynhyrchwyd y cofnodion goruchwyllo gan oruchwylwyr ond cydnabu nad oedd bob amser wedi bod cystal ag y dylai fod a'i fod yn faes lle'r oedd angen gosod safonau.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth ynghylch beth oedd taliadau uniongyrchol (DP), faint y gwnaed cais amdanynt a faint a dalwyd.

Cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant fod taliadau uniongyrchol yn fath o gefnogaeth a ddarperir i blant ac oedolion ac mewn gofal cymdeithasol plant ac a ddefnyddir i gefnogi teuluoedd a phlant anabl yn dilyn asesiad i weld a ellir diwallu eu hanghenion gan daliad uniongyrchol. Telir y taliad uniongyrchol i deulu a all gyflogi cynghorydd personol i'w helpu i ddiwallu'r angen cymorth a nodwyd. Cadarnhaodd fod nifer y Taliadau Uniongyrchol a ddarperir yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, sy'n creu pwysau ar y gyllideb ac y byddai adolygiad o Daliadau Uniongyrchol ar draws y gyfarwyddiaeth eleni. Ar 12 Rhagfyr, byddent yn ymgysylltu ac yn lansio strategaeth a dogfen bolisi ac roedd yn gobeithio y byddai'r adolygiad polisi yn mynd i'r afael â'r mater o deuluoedd yn dweud eu bod yn gorfod mynd trwy'r felin i gael taliad uniongyrchol.

Gofynnodd Aelod beth oedd y cynllun i leihau'r rhestr aros o 12 wythnos am gymorth iechyd meddwl a mynegodd bryder bod rhai plant â phryderon iechyd meddwl hefyd yn absennol o'r ysgol a bod y rhestr aros wedyn hefyd yn effeithio ar eu haddysg.

Cytunodd y Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant fod y rhestr aros yn llawer rhy hir ar gyfer gwasanaeth mor bwysig ac nad oedd yn cael ei darparu gan y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, cytunodd i gael gwybodaeth am y rhestr aros gan yr uwch swyddog perthnasol.

O ran sut y caniatwyd i'r rhestr aros gyrraedd 12 wythnos, cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd eto at y problemau sylweddol yn y gweithlu ledled Cymru a dywedodd ei fod yn rhywbeth yr oedd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried yn fanwl. Dywedodd mai dim ond hanner llawn oedd y cwrs hyfforddi gwaith cymdeithasol diwethaf yng Nghaerdydd a bod Pen-y-bont ar Ogwr yn recriwtio ei myfyrwyr gwaith cymdeithasol ei hun gyda mwy yn manteisio ar hynny nag erioed o'r blaen. Dywedodd, lle'r oedd staff wedi'u dargyfeirio o wasanaeth neu pan fo diffyg staff, y byddai oedi ond ei fod wedi gwella yn dilyn yr arolygiad.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i ymholiad ynghylch yr hyn yr oedd y Gyfarwyddiaeth yn ei wneud i annog pobl i ddilyn gyrfya ym maes gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn lle awdurdodau lleol eraill, gan gydnabod yr angen am farchnata mwy sensitif a chadarnhaodd fod arian wedi'i glustnodi i ariannu swydd farchnata yn y gyfarwyddiaeth. Cyfeiriodd at yr angen i bobl deimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda ac am gynnig ariannol ac anariannol cystadleuol. Yn ogystal, roedd angen i gydweithwyr hyrwyddo'r cyfleoedd yn eu rhwydweithiau.

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y broses ar gyfer cofnodi achosion o blant ar goll, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant fod atgyfeiriad diogelu yn cael ei roi ar ffeil y plentyn yn achos plentyn ar goll ac y byddai cofnodion ysgrifenedig ar gael mewn ymateb i hynny gyda arolygiaeth rheolwyr a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cynnwys plant a phobl ifanc yn ystyrllon, cadarnhaodd y byddai'n un o ofynion allweddol y Swyddog Rhianta a Chyfranogiad Corfforaethol. Byddai barn plant sydd â phrofiad o ofal a barn pob plentyn yn ganolog i'r gwaith o greu'r fframwaith ymgysylltu a chynnwys. Roedd llais y plentyn hefyd yn ganolog i'r hyfforddiant Hanfodion a ddylai gael ei atgyfnerthu gan reolwyr tîm mewn goruchwyliaeth.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gan blant â phrofiad o ofal ei manylion cyswllt a bod polisi drws agored i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch ymweliadau rota yn dychwelyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y Gyfarwyddiaeth wrthi'n ystyried sut y gellid eu dwyn yn ôl yn effeithiol.

Cadarnhaodd hefyd y byddai cyflwyno'r Cynllun Gweithredu yn effeithio ar yr amlen gyllidebol y maent yn gweithio ynddi. Roedd gorwariant sylweddol a ysgogwyd yn bennaf gan weithlu, dibyniaeth ar staff asiantaeth a'r sefyllfa lleoliadau. Roedd rhywfaint o gymorth penodol hefyd wedi'i ariannu gan gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi oherwydd y tanwariant y llynedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Arweinydd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant am eu hadroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor y cynigion canlynol:

1. Bod Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 2 yn cysylltu â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i nodi:
 - a) Yr hyn y gall Aelodau ei wneud i gefnogi'r Cyngor i hyrwyddo recriwtio i Wasanaethau Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr; a
 - b) Pa gymorth y gall y Pwyllgor ei roi i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn ei thrafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch telerau ac amodau cyflogaeth a thâl.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

a gwnaeth y Pwyllgor gais am y canlynol:

2. Nodyn briffio yn nodi'r broses ar gyfer galwadau a wneir i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), i gynnwys manylion ynghylch sut neu os yw'r rhain yn cael eu cofnodi a chyfrifoldeb ysgolion wrth wneud atgyfeiriadau diogelu.
3. Manylion llwyth achosion cyfredol Gweithiwr Cymdeithasol gan gynnwys y llwyth achosion uchaf a briodolir i unrhyw un Gweithiwr Cymdeithasol.
4. Faint o Daliadau Uniongyrchol y gwnaed cais amdanynt yn y 12 mis diwethaf a wnaed.
5. Y rhestr aros bresennol ar gyfer plant sy'n aros am gymorth gan y Tîm Iechyd Meddwl Emosiynol Ieuentid.

10. GALW PENDERFYNIAD Y CABINET I MEWN: ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL NEILLTUO TIR YM MHARC GRIFFIN A BAE SANDY

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu yr adroddiad a oedd â'r pwrpas o alluogi'r Pwyllgor i graffu ar benderfyniad y Cabinet ar 18 Hydref 2022 mewn perthynas â'r adroddiad ar Adfywio Glannau Porthcawl: Neilltuo Tir ym Mharc Griffin a Bae Sandy.

Dywedodd, yn unol â Rheol 18 o'r Rheolau Trosolwg a Chraffu yng Nghyfansoddiad y Cyngor, fod pum Aelod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a dau Gadeirydd Craffu, wedi gofyn i benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet ar 18 Hydref 2022 gael ei Alw i Mewn.

Dywedodd yr argymhellwyd bod y Pwyllgor yn ystyried penderfyniad y Cabinet ar 18 Hydref 2022 yn ymwneud ag Adfywio Glannau Porthcawl: Neilltuo Tir ym Mharc Griffin a Bae Sandy a phenderfynu a oedd yn dymuno:

- i) cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi yn ysgrifenedig natur ei bryderon; neu
- ii) penderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau a oedd wedi cefnogi'r Galw i Mewn i siarad ar y rhesymau dros y Galw i Mewn.

Dywedodd yr Aelodau mai'r prif resymau dros y Galw i Mewn oedd:

- Dylai Craffu ddangos ei fod yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, y Cabinet a Swyddogion bod y Cyngor yn symud ymlaen i'r cyfeiriad cywir ac y dylid ei weld fel rhywbeth sy'n ychwanegu gwerth ac yn cryfhau'r broses o lunio polisi cyhoeddus.
- Yr angen am dystiolaeth amlwg bod yr awdurdod lleol wedi gweithredu'r 5 Ffordd o Weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghoriad cyhoeddus fynd y tu hwnt i'r isafswm statudol.
- Roedd yr aelodau wedi derbyn nifer sylweddol o sylwadau gan gynghorwyr tref, y cyhoedd a sefydliadau lleol ym Mhorthcawl yn gwrthwynebu'r cynigion

a'u bod wedi codi pryderon a chwestiynau dilys ynghylch y cynlluniau adfywio. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i roi llais i'r bobl hynny, gan gydnabod yr effaith cenedliadol sylweddol a'r newid diwrthdro i'r dref y gallai'r cynlluniau datblygu eu cael ar Borthcawl.

- Mynegwyd pryder y gallai canfyddiad y cyhoedd o gyfarfod y Cabinet fod fel a ganlyn, sef ei fod yn benderfyniad a oedd wedi'i bennu ymlaen llaw o ystyried lefel uchel y pryderon cyhoeddus nad oedd yn ymddangos eu bod wedi'u trafod na'u trin yn ddigonol.
- Bod angen tystiolaeth amlwg bod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn llethol yn erbyn neilltuo tir i'r dibenion a amlinellwyd yn adroddiad y Cabinet.
- Colli manau agored at ddibenion hamdden, newidiadau i Barc Griffin, pryderon am dai arfaethedig yn Sandy Bay, diffyg buddsoddiad mewn cyfleusterau twristiaeth, yn ogystal â'r effaith ar fywyd gwyllt ac ecoleg, na chawsant eu trafod yn ddigonol yn ystod trafodaethau'r Cabinet ar y mater hwn.
- A oedd angen neilltuo'r holl dir i alluogi adfywiad glannau Porthcawl (a allai agor y llifddorau ar gyfer tai) a pham nad oedd yr opsiwn o leihau arwynebedd y tir y bwriedir ei neilltuo wedi'i ystyried.
- Roedd angen ymchwilio ymhellach i'r ddeuoliaeth rhwng y broses o feddiannu'r tir a'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG).
- Mae Porthcawl yn em yng nghoron y Fwrdeistref, ac roedd angen ystyried cyfleoedd i'w hadfywio mewn modd sympathetig sy'n hyrwyddo twristiaeth yn yr un modd ag ardaloedd cyfagos sy'n elwa o dwristiaeth.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Adfywio am:

- Diolch i'r Pwyllgor am y gwahoddiad ond dywedodd fod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau wedi'u gwneud cyn iddi ddod yn Aelod Cabinet a dywedodd y byddai Swyddogion mewn gwell sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth gefndir.
- Rhoi gwybod bod angen neilltuo'r tir ar gyfer gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) y cytunwyd arno yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor.
- Amlygu bod y Cabinet, yn dilyn e-byst gyda phryderon gan drigolion, wedi gofyn i Swyddogion hwyluso ymweliad safle iddynt a oedd yn caniatáu iddynt ragweld faint o fannau agored fyddai ar gael. Yn ogystal, yn dilyn y Strategaeth Creu Lleoedd roedd nifer y tai arfaethedig wedi'u lleihau ac roedd yr ardal ar gyfer manau agored wedi'i helaethu.
- Cadarnhau bod y Cabinet hefyd wedi cynnal taith gerdded gyda Chynghorwyr lleol er mwyn iddynt weld faint o fannau agored fyddai ar gael a sut y byddai Parc Griffin yn cael ei ymestyn, ac y byddai taith gerdded arall yn cael ei threfnu ar gyfer rhanddeiliaid lleol.
- Nodi y byddai'r cwrt tenis pob tywydd newydd yn ei le cyn cael gwared ar y cyrtiau tennis presennol ac y byddai hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Tennis Porthcawl.
- Cadarnhau, er nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch beth yn union a fyddai'n cael ei ddatblygu ar y tir, byddai cyfleusterau masnachol a

hamdden a fyddai'n gwella Porthcawl ac y byddai'r holl randdeiliaid yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir.

- Mewn perthynas ag a oedd neilltuo'r tir yn fater ar wahân i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, er ei fod yn gysylltiedig, cadarnhaodd y gofynnwyd am gyngor cyfreithiol priodol a'u bod yn bethau ar wahân.
- Roedd yn teimlo bod y 5 Ffordd o Weithio yn Neddf 2015 WBFG(W) 2015 wedi'u bodloni ac amlygodd yr angen mawr am dai ac y byddai 30% ar gyfer tai cymdeithasol.
- Mewn perthynas ag a roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r prosiect gan y Cabinet, amlygodd fod Bae Sandy wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad ers y Cynllun Datblygu yn 2004 ac felly nid oedd yn newydd.

Roedd Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau am:

- Ei gwneud yn glir nad oedd y defnydd o'r tir yn Sandy Bay a Coney Beach wedi'i benderfynu ymlaen llaw ond bod y tir wedi'i neilltuo, a oedd yn fecanwaith cyfreithiol i ddileu ei ddefnydd presennol (fel maes carafanau), ar gyfer dibenion cynllunio gyda'r bwriad o ymgynghori'n helaeth ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn yr ardal.
- Egluro bod ystyriaeth ddyledus wedi'i rhoi i'r holl sylwadau a wnaed gan y cyhoedd a chyfeiriodd at Atodiad 5 i adroddiad y Cabinet a oedd yn manylu ar y prif bryderon o'r dros 600 o ymatebion a gafwyd. Roedd deddfwriaeth Diogelu Data yn gwahardd cyhoeddi'r ymatebion yn llawn yn y parh cyhoeddus, ond cadarnhaodd fod Aelodau'r Cabinet wedi derbyn dogfen a oedd yn manylu ar bob gwrthwynebiad a dderbyniwyd.
- Cadarnhau mai'r cynllun drafft oedd cynyddu maint Parc Griffin o 4 erw i 8 erw a chreu parc hiraen hir a chysylltu Parc Griffin â'r parc angenfilod. Yn bwysig, unwaith y caiff ei ddynodi'n fan agored ffurfiol, gellir amddiffyn tir.
- Nodi mai un o'r gwrthwynebiadau oedd yr angen i dynnu cornel oddi ar un o'r lawntiau bowlio ym Mharc Griffin er mwyn cael mynediad i'r safle a allai effeithio ar y cyrtiau tenis ond, amlygodd ei fod yn lawnt fowlio segur yr oedd y Cyngor wedi ymrwymo i'w ail-osod ac mewn perthynas â'r cyrtiau tenis, roedd y Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyrtiau pob tywydd newydd sbon.
- Roedd maes arall a oedd yn peri pryder yn ymwneud â Hyb y Cyn-filwyr nad oedd, meddai, yn addas i'w ddefnyddio oherwydd ei fod wedi dirywiad a bod y Cyngor wedi ymrwymo i'w helpu i ddod o hyd i eiddo newydd a gweithio gyda'r gymuned ar gyfleusterau.
- Gan gyfeirio at y Strategaeth Creu Lleoedd, cadarnhawyd bod Coney Beach a Sandy Bay wedi bod yn y CDLI fel safle strategol ar ôl iddo roi'r gorau i fasnachu yn gynnar yn y 2000au. Fe'i rhoddwyd yn y CDLI, fel dyraniad tai posibl, yn 2004, yn 2014 ac yn awr eto a chadarnhaodd ei fod yn mynd ymlaen i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n gyhoeddus.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

- Mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, tynnodd sylw at natur esblygol Porthcawl fel tref glan môr i drigolion ac ymwelwyr a hawl pobl i gael rhywle i fyw (gan gynnwys yr angen am dai fforddiadwy), i chwarae, i gael cyflogaeth. ac i gael addysg. Roeddent wedi edrych ar y cynlluniau oedd yn eu lle ac wedi cynhyrchu Strategaeth Creu Lleoedd yr ymgynghorwyd arni gydag arddangosfa ym Mhafiliwn y Grand a gyda 3 wythnos o hysbysfyrddau yn Cosy Corner ac a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Mawrth.
- Cadarnhaodd ehangder daearyddol y Strategaeth Creu Lleoedd a dywedodd ei bod wedi llunio gweledigaeth gref ar gyfer adfywio ac yn ganolog iddi oedd mannau agored, teithio llesol, mannau cymunedol, mynd â thraffig i ffwrdd o lan y môr, dod â chanol y dref a glan y môr gyda'i gilydd, ysgol newydd yn yr ardal, cartrefi newydd (cyfran yn fforddiadwy) a chyfleoedd hamdden. Fodd bynnag, byddai manylion y rheini'n rhan o'r ymgynghoriad gan mai'r ddeddfwriaeth gynllunio yn unig oedd y neilltuo ei hun i ganiatáu ystyried ei ddefnydd yn y dyfodol. -
- Nododd mai'r rheswm am yr angen i neilltuo'r holl dir oedd oherwydd nad oedd unrhyw ganiatâd cynllunio pendant na phenderfyniadau ar ba ardaloedd fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer mannau agored, ar gyfer yr ysgol newydd, ar gyfer tai, lle byddai'r ffyrdd a byddau gadael unrhyw ran o'r tir allan o'r neilltuad yn rhag-benderfynu beth ellir ei wneud gyda'r safle yn y dyfodol.
- Cadarnhawyd bod y 5 ffordd o weithio wedi'u gwreiddio'n llwyr ym mhopeth a wnânt a bod angen sicrhau dyfodol cynaliadwy i bobl ifanc. Cyfeiriodd at adrannau 2 a 7 o Adroddiad y Cabinet lle'r ystyriwyd y 5 Ffordd o Weithio ac ystyriaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol ym mharagraffau 4. 41 i 4. 47.
- Dywedodd ei bod wedi'i gwneud yn glir o'r Strategaeth Creu Lleoedd y byddai angen GPG i neilltuo a glanhau teitl peth o'r tir nad oedd ganddo enwau na theitlau. Eglurodd fod neilltuo yn ddeddfwriaeth gynllunio tra bod GPG yn ddeddfwriaeth eiddo.

Nododd Arweinydd y Cyngor eto bod yr ymgynghorwyd ar y Strategaeth Creu Lleoedd wedi bod yn helaeth gan gynnwys yr ymgysylltu wyneb yn wyneb ym Mhafiliwn y Grand a'i bod wedi'i chymeradwyo gan yr Aelodau yn y Cyngor. Dywedodd fod y Cyngor wedi ymateb i lawer o'r ymgynghoriad cyhoeddus trwy gynnwys mwy o fannau agored cyhoeddus a thynnodd sylw at y bwriad i ehangu Parc Griffin a chynlluniau i gynnal, gwella ac amddiffyn y twyni creiriol a'r rhwydwaith teithio llesol a fyddai'n darparu datblygiad gwirioneddol integredig ar gyfer ymwelwyr a thrigolion lleol. Cyfeiriodd hefyd at yr adroddiad ymgynghori cynhwysfawr a dderbyniwyd ac a ystyriwyd gan y Cabinet.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Adfywio Atodiad 3 o adroddiad y Cabinet a thynnodd sylw at y mannau agored a gynlluniwyd a gwelliannau ansoddol eraill.

Gwahoddodd y Cadeirydd y siaradwyr cyhoeddus a restrir isod i annerch y Pwyllgor am uchafswm o dri munud, yn eu tro, gyda'u sylwadau, eu gwrthwynebiadau a'u pwyntiau ynghylch penderfyniad y Cabinet (a wnaed yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2022).

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

Enw:

Sefydliad:

- | | |
|------------------------|-----------------------------------------------|
| 1. Jamie Strong | Llais i Ddyfodol Porthcawl |
| 2. Don Tickner | Cymdeithas Ymddiriedolaeth Ddinesig Porthcawl |
| 3. Margaret Minhinnick | Cymru Gynaliadwy |

Roedd y sylwadau, y gwrthwynebiadau a'r pwyntiau a wnaed gan y siaradwyr cyhoeddus yn cynnwys y canlynol:

- Pam na ellid lleihau arwynebedd y tir y bwriedir ei neilltuo, pam fod angen iddo gynnwys y twyni creiriol, pam na ellid lleihau'r ardal o dir a gynigir ar gyfer tai yn Sandy Bay i greu mwy o fannau hamdden gwarchoddedig, a pham na allai'r estyniad i Barc Griffin fynd i'r blaen traeth dymunol yn Sandy Bay.
- Gan nodi bod dogfennau'n cyfeirio at y neilltuad sy'n galluogi'r tir i gael ei farchnata i ddatblygwyr, a oedd unrhyw bosibilrwydd o ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygu'r tir neu a oedd defnydd y tir wedi'i benderfynu ymlaen llaw, gan amlygu bod y CDLI eisoes yn cyfeirio at y nifer o dai fyddai'n cael eu hadeiladu ar y tir.
- Mynegwyd pryder ynghylch graddau ymdrechion y Cyngor i ymgynghori â'r cyhoedd gan gyfeirio at Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n nodi, wrth ddatblygu cynlluniau, ei bod yn hollbwysig bod awdurdodau cynllunio yn ymgysylltu â phobl yn eu cymunedau eu hunain i gael proses gyfranogol, a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni lleoedd cynaliadwy ac sy'n nodi gofyniad a oedd yn mynd y tu hwnt i'r isafswm ymgynghori statudol a nodir mewn deddfwriaeth gynllunio.
- Pryderon pellach ynghylch y diffyg ymgynghori gwirioneddol â'r cyhoedd ynghylch cynllunio'r siop fwyd yn Salt Lake a Cosy Corner gan amlygu'r cyfleoedd cyfyngedig i ymgysylltu neu wneud sylwadau a bod unrhyw gyfleoedd yn methu â bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Pryderon ynghylch diffyg tystiolaeth o ddealltwriaeth wirioneddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ddangos sut mae eu penderfyniadau'n bodloni llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd eu cymuned a Chymru.

Nid oedd yn glir a oedd y pum ffordd o weithio, sy'n gynhenid i'r system gynllunio, yn enwedig cynnwys, wedi'u dehongli yn unol â'r ddeddfwriaeth, oherwydd pe bai hynny wedi digwydd, byddai mwy na phroses ymgynghori ac nad oedd yn glir sut y defnyddiwyd cydweithredu, integreiddio, atal a hirdymor ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol ym Mhorthcawl a Chymru.

- Roedd angen dull mwy cydlynol er mwyn i weithwyr proffesiynol weithio mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad byw i hysbysu, i ailddiffinio gweledigaethau a gwerthoedd a rennir ac i rannu'r cyfrifoldeb i sicrhau

atebion cynaliadwy, cydfuddiannol drwyddi draw ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn darparu fframwaith cyflawni ar gyfer holl staff y Cyngor ac Aelodau etholedig.

Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu nad oedd unrhyw sylwadau ysgrifenedig na gwrthwynebiadau wedi dod i law.

Mewn ymateb i faterion a godwyd gan y siaradwyr cyhoeddus, gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:

- Nodi bod y twyni creiriol yn mynd i aros heb eu newid ac y byddent yn cael eu diogelu a chadarnhawyd ei fod wedi ei gynnwys yn y neilltuad gan ei fod yn rhan o'r maes carafanau a bod ganddo garafanau arno.
- O ran cytundeb y perchnogion, roedd angen caniatâd cynllunio ac ymgynghori ar bopeth.
Cadarnhau bod yr ymgynghoriad ar y neilltuad wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol ac, mewn perthynas â Cosy Corner, er bod cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am adeilad at ddefnydd cyflogaeth, roedd y Cyngor hefyd yn darparu manau agored a chyfleusterau cymunedol.
- Cytuno bod ymgynghori a chydgyhyrchu yn hynod bwysig ond amlygodd mai neilltuad oedd y mater hwn ac mai'r cynlluniau manwl fyddai'n dod nesaf, ac roedd yn ymwymo i weithio gyda nhw i gyflwyno cynllun wedi'i gydgynhyrchu ar gyfer yr hyn y mae'r gymuned ei eisiau.

Gwahoddodd y Cadeirydd unrhyw Aelodau eraill a oedd wedi cefnogi'r Galw i Mewn i siarad ac yna gwahoddodd unrhyw Aelodau eraill o'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau.

Holodd Aelod, gan gyfeirio at gyfleusterau mewn ardaloedd cyfagos, pam nad oedd cyfeiriad at gyfleusterau yn yr adroddiadau, beth oedd y gost o gynhyrchu'r cynlluniau drafft a beth fyddai'r gost i gynhyrchu rhai newydd ar ôl cynnwys y cyhoedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol unwaith eto fod y neilltuad yn fecanwaith cynllunio cyfreithiol i ganiatáu cyflwyno cynlluniau manwl yn y dyfodol nad oedd ar gael tan ymgynghoriad cyhoeddus, ond dywedodd mai'r uchelgais oedd bod yn glan môr bwysig.

Mewn ymateb i p'un a fyddai'r ffordd a gynlluniwyd i redeg drwy Barc Griffin yn newid, dywedodd ei bod yn allweddol i gael ffordd i mewn i'r safle datblygu ac mai'r fynedfa a nodwyd oedd yr unig opsiwn oherwydd cymuned breswyl ar y pen uchaf. Fodd bynnag, nid oedd maint, graddfa a chyfeiriad y ffordd wedi'u dylunio eto. Amlygodd hefyd yr ymrwymiad i ddarparu cartrefi ond gyda chymuned gytbwys a chynaliadwy.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch lleoliad a hygyrchedd y cyrtiau tenis newydd, dywedodd yr Arweinydd y byddent yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Tennis Lawnt a'r clwb lleol ynghylch y cynllun manwl, ond y cynlluniau oedd adleoli'r cyrtiau o fewn Parc Griffin a oedd wedi'i ehangu. Tynnodd sylw at fantais y ffaith bod y cyrtiau newydd yn gyfleuster pob tywydd.

Atgoffodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yr Aelodau mai penderfyniad y Cabinet ar y neilltuad yn unig oedd cwmpas y Galw i Mewn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ei gweledigaeth ar gyfer Porthcawl, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio fod ganddi lawer o syniadau posibl gan gynnwys ardal wlyb a chyfleusterau hamdden dan do ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr a'i bod yn awyddus i weithio gyda phreswylwyr.

Mewn perthynas â chwestiwn ynghylch yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod yr holl sylwadau wedi'u rhoi i'r Cabinet ond bod angen eu gwneud yn ddiennw ar gyfer yr adroddiad cyhoeddus. Nododd hefyd, lle bu sylwadau tebyg, eu bod wedi'u cynnwys yn Atodiad 5 o adroddiad y Cabinet o dan themâu a phenawdau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y byddai eiddo ar lan y traeth, sydd fel arfer yn denu premiwm, yn cael eu diogelu fel cartrefi fforddiadwy, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau nad oedd y manylion ar gael eto ond tynnodd sylw at y ffaith bod canran benodol o dai fforddiadwy yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Cyngor Tref Porthcawl, cadarnhaodd eu bod yn ymwneud â'r Strategaeth Creu Lleoedd fel ymgynghorai a rhanddeiliad allweddol, ac y byddent yn parhau i gyfranogi wrth symud ymlaen. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio eu bod hefyd yn cynllunio taith gerdded arall drwy'r safle gyda chynrychiolwyr rhanddeiliaid.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyllid ar gyfer cyfleusterau o fewn y Parc Griffin newydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod Parc Griffin wedi'i drosglwyddo'n ased cymunedol (CAT) i Gyngor Tref Porthcawl a bod y cymorth a'r gynhaliath referniw yn hollbwysig. Roedd yn awyddus i ddefnyddio cytundebau Adran 106 ar gyfer symiau cyfalaf gohiriedig i ofalu am rywfaint o'r seilwaith gan amlygu sefyllfa anodd y gyllideb a bod angen i gyfleusterau fod yn gynaliadwy. Byddai trafodaethau gyda Chyngor Tref Porthcawl yn parhau ynghylch dyfodol Parc Griffin.

Mewn ymateb i p'un a fyddai'r ffordd arfaethedig drwy Barc Griffin yn effeithio ar y cytundeb gyda Chyngor Tref Porthcawl, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod y gornel y bwriadwyd ei defnyddio ar gyfer y ffordd wedi'i thynnu oddi ar y CAT a thynnodd sylw at y ffaith na ellid cael gwared ar yr hen gyfleusterau cyn gosod cyfleusterau newydd.

Sicrhaodd yr Arweinydd y byddai partneriaeth gyda Chyngor Tref Porthcawl ar y cynlluniau ar gyfer Parc Griffin.

Amlygodd Aelod y bu llawer o drafod ynglŷn â Pharc Griffin ond ychydig iawn o ran Sandy Bay ar wahân i'r cyfeiriad at dai a holodd a oedd gweledigaeth neu gynllun ar gyfer y tir a neilltuwyd eisoes.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod yna gynlluniau a fframwaith lefel uchel a strategol a dywedodd fod yna gynlluniau ar gyfer 200 o gartrefi ar Salt Lake a 900 ar y tir a neilltuwyd. Fodd bynnag, amlygodd y byddai'r safle yn llawer mwy na hynny ac er bod gweledigaeth glir iawn ar gyfer y safle, ni ellid pennu'r manylion ymlaen llaw oherwydd yr angen am geisiadau cynllunio.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod 600 o sylwadau wedi dod i law ynghylch y neilltuo, dros 1000 yn ymwneud â'r CDLI a swm tebyg ar y Strategaeth Creu Lleoedd; felly canran uchel o drigolion a thynnodd sylw hefyd at y nifer fawr o bobl a aeth i'r arddangosfa ac yr atebwyd eu cwestiynau yno.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

Mewn perthynas â seilwaith, roedd hynny'n rhan allweddol o'r ddarpariaeth a dywedodd na fyddai cartrefi newydd yn cael eu cyflwyno i gymuned oni bai ei fod yn gynaliadwy a bod cyfleusterau o'u cwmpas.

Tynnodd yr Arweinydd sylw hefyd at y cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Saesneg a'r ddarpariaeth addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ogystal â'r seilwaith ehangach ar gyfer Porthcawl.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a fyddai cyfeirio'r penderfyniad ar y neilltuo yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried yn rhwystro ac yn gohirio cynlluniau i symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd yr Arweinydd pe bai'r penderfyniad yn cael ei gyfeirio'n ôl y byddai'n ychwanegu amser at y broses ac nad oeddent eisiau gohirio cynlluniau ar gyfer Porthcawl. Fodd bynnag, amlygodd er bod egwyddorion allweddol eisoes wedi'u cytuno gan y Cyngor wrth gymeradwyo'r CDLI, bod dewisiadau i'w gwneud ac y byddent yn ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd ynghylch yr ymgynghoriad gan gynnwys sut i ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned ar y manylion.

Gan ystyried a oeddent yn fodlon â'r ymatebion, gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, i nodi a oeddent yn dymuno:

- a) Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi'r rhesymau a'r rhesymeg dros y cais;

Neu

- b) Penderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD:

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad na fyddai'r Penderfyniad yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet ond gwnaeth yr Argymhelliad a ganlyn i'r Cabinet:

- a) O ystyried pryderon a fynegwyd i'r Aelodau gan drigolion Porthcawl, safbwyntiau a rannwyd gan siaradwyr cyhoeddus a chwestiynau gan Aelodau, y dylid gofyn i'r Cabinet, wrth symud ymlaen ar gyfer y camau nesaf yn y broses eu bod yn cynnwys Cyngor Tref Porthcawl, yr holl randdeiliaid a'r cyhoedd. mewn ymgynghoriad ac ymgysylltu pellach.

11. DIWEDDARIAD BLAENRAGLEN WAITH

Ar ôl ystyried yr adroddiad ar y Ddiweddaraf y Blaenraglen Gwaith, gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

1. Bod cwmpas yr adroddiad Gweithio Integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cynnwys naratif ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty.
2. Pan fydd yr adroddiad ar IAA wedi'i amserlennu y bydd yna wahoddedigion o'r Adran Addysg hefyd.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4. 3, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD IAU, 3 TACHWEDD 2022

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Blaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys y ceisiadau uchod, yn nodi y byddai'r Blaenragle Waith ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf COSC ac yn nodi'r Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion yn Atodiad B.

12. **MATERION BRYD**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified